

# PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU

Dydd Iau, 4 Hydref 2018

**YN BRESENNOL:** Y Cyngorydd S.L. Davies (Cadeirydd)

## Y Cynghorwyr:

D.M. Cundy, C.A. Davies, S.L. Davies, W.T. Evans (In place of H.L. Davies),  
S.J.G. Gilasbey, B.W. Jones, H.I. Jones, S. Matthews, H.B. Shepardson, B.A.L. Roberts,  
G.B. Thomas and A.Vaughan Owen

## Hefyd yn bresennol:

Y Cynghorwyr L.D. Evans, Aelod y Bwrdd Gweithredol dros Tai  
L.M. Stephens, Dirprwy Arweinydd y Cyngor

## Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:

I. Jones, Pennaeth Hamdden  
L. Quelch, Y Pennaeth Cynllunio  
J. Morgan, Pennaeth Cartrefi a Chymunedau Mwy Diogel Dros Dro  
H. Morgan, Rheolwr Datblygu Economaidd  
L. James, Rheolwr y Gwasanaethau Tai  
S. Walters, Rheolwr Datblygu Economaidd  
A. Thomas, Gyfrifydd Grwp  
R James, Performance Planning & Business Officer  
K. Thomas, Swyddog Gwasanaethau Democraidd

**Siambr, Neuadd y Sir, Caerfyrddin - Neuadd y Sir - 10.00 - 11.00 am**

### 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Cafwyd ymddiheuriad am absenoldeb gan y Cyngorydd H. Davies.

Cyfeiriodd y Cadeirydd at y Gwobrau TIC a gynhaliwyd yn ddiweddar (Trawsnewid i Wneud Cynnydd) a mynegodd ei llongyfarchiadau i'r staff yn y gwasanaeth Llyfrgelloedd ar ennill gwobr am y prosiect 'Stordy Creadigol' yn Llyfrgell Rhydaman.

### 2. DATGAN BUDDIANAU PERSONOL GAN GYNNWYS UNRHYW CHWIP A NODWYD MEWN PERTHYNAS AG UNRHYW EITEM AR YR AGENDA

Ni chafwyd dim datganiadau ynghylch chwip waharddedig.

Cafwyd y datganiad o fuddiant canlynol:

Y cyngorydd	Rhif y Cofnod	Y Math o Fuddiant
J Gilasbey	6 – Chwarter 1 – Adroddiad Monitro Perfformiad 1 Ebrill i 30 Mehefin	Ymddiriedolwr Amgueddfa Ddiwydiannol Cydweli

### 3. CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD (NID OEDD DIM WEDI DOD I LAW)

Nid oedd cwestiynau gan y cyhoedd wedi dod i law.

#### 4. ADRODDIAD PERFFORMIAD CYNLLUNIO BLYNYDDOL

Bu'r Pwyllgor yn ystyried Adroddiad Perfformiad Blynyddol yr Is-adran Gynllunio ar gyfer y cyfnod rhwng mis Ebrill 2017 a mis Mawrth 2018, lluniwyd yr adroddiad yn unol â gofyniad Tabl y Fframwaith Perfformiad Cynllunio, ac yr oedd rhaid ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru erbyn 31 Hydref bob blwyddyn i'w werthuso'n unol â'r dangosyddion a'r targedau a bennwyd. Yn dilyn y gwerthusiad, byddai perfformiad pob awdurdod cynllunio lleol yn cael ei osod mewn un o dri band perfformiad: Gwella (Coch), Gweddol (Ambr), Da (Gwyrdd) sy'n cael eu hasesu ar draws y pum agwedd allweddol ar ddarparu'r gwasanaeth cynllunio fel y nodir:-

- Gwneud cynlluniau;
- Effeithiolrwydd;
- Ansawdd;
- Ymgysylltu;
- Gorfodi.

Rhoddwyd sylw i'r cwestiynau/materion canlynol wrth drafod yr adroddiad:-

- Cyfeiriwyd at y Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA) a p'un a oedd gan yr Is-adran Gynllunio unrhyw gynigion i gyhoeddi canllawiau ychwanegol yn y dyfodol agos, er enghraifft mewn perthynas â defnydd cymysg.

Dywedodd y Pennaeth Cynllunio er bod yr Is-adran, dros y blynyddoedd diwethaf, wedi cyhoeddi nifer o Ganllawiau Cynllunio Atodol, byddai unrhyw ganllawiau yn y dyfodol, yn rhan o broses adolygu'r Cynllun Datblygu Lleol (CDLI). Os oedd gan yr aelodau unrhyw feysydd yr oeddent yn teimlo bod angen eu hystyried o ran cynhyrchu Canllawiau Cynllunio Atodol, dylent roi gwybod i'r Adain Blaen-gynllunio a fyddai'n edrych ar yr ymarferoldeb o fynd i'r afael â rhain o fewn y CDLI diwygiedig.

- Cyfeiriwyd at dudalen 21 yr adroddiad at gyllideb weithredol yr Is-adran Gynllunio yn ystod y cyfnod 2012/13 a 2017/18. Gofynnwyd am eglurhad pam mae'r incwm gwirioneddol sy'n cael ei gronni yn aml yn llai na'r incwm a gafodd ei gyllidebu, ac, a oedd cyfiawnhad dros archwilio targed y gyllideb er mwyn adlewyrchu'r lefel incwm gwirioneddol yn fwy cywir.

Dywedodd y Pennaeth Cynllunio fod nifer o ffactorau yn effeithio ar lefelau incwm, y mwyaf amlwg oedd y niferoedd a'r categorïau o ran ceisiadau cynllunio a oedd yn dod i law, er enghraifft ceisiadau cynllunio bach domestig a cheisiadau diwydiannol/masnachol mawr a lefel y ffioedd y gellid eu codi yn ôl pob categori.

Hefyd roedd lefel y ffioedd sy'n cael eu codi yn broblem i Awdurdodau Lleol yng Nghymru gan nad oedd hawl ganddynt i brosesu ceisiadau cynllunio ar sail adfer cost lawn, yn yr un modd ag y mae awdurdodau yn Lloegr yn gwneud. Er bod Llywodraeth Cymru yn cydnabod y bwch hwnnw, roedd yn disgwyl i awdurdodau lleol yng Nghymru gynyddu eu lefelau incwm cyn y byddai'n rhoi ystyriaeth i godi ffioedd cynllunio. Roedd yr Awdurdod felly'n ystyried cyflwyno Atodlen o ffioedd ar gyfer y gwasanaethau sy'n cael eu darparu'n rhad ac am ddim ar hyn o bryd e.e. cyngor cyn cynllunio. Pe bai hynny'n cael ei gyflwyno, byddai'r cynnydd o ran incwm hefyd yn helpu i leihau'r gwarged, ond ni fyddai'n gwneud yn iawn am y diffyg gwirioneddol.

Fodd bynnag, byddai cyflwyno ychydig o gynlluniau mawr yn helpu i leihau'r diffyg hwnnw.

Roedd y drydedd agwedd yn gysylltiedig â chostau'r is-adran gynllunio wrth ymgymryd â rôl orfodi'r Awdurdod Cynllunio nad oedd modd ailgodi tâl amdano. Fel y cyfryw, ni fyddai'r elfen honno o gylich gwaith yr is-adran, o dan y ddeddfwriaeth bresennol, yn gallu dod yn hunangyllidol.

- Dywedodd y Pennaeth Cynllunio mewn ymateb i gwestiwn ar y gostyngiad yn nifer y ceisiadau cynllunio a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod 2012/13 a 2017/18 mai'r prif reswm dros hynny oedd yr hinsawdd economaidd.

Er bod yr adroddiad yn cofnodi gostyngiad, dylid cydnabod bod yr awdurdod wedi ymdrin â mathau eraill o geisiadau nad ydynt yn cael eu cynnwys yn yr adroddiad monitro blynyddol i Lywodraeth Cymru. Roedd y rhain yn cynnwys ceisiadau a gyflwynwyd o dan Hawliau Datblygu a Ganiateir a hefyd Hysbysiadau Ymlaen Llaw nad oedd hawl codi tâl amdanynt e.e. gosod cyfarpar telathrebu. Roedd ystyriaeth hefyd yn cael ei roi yn genedlaethol i ehangu'r ystod o geisiadau sydd yn cael eu hystyried o dan yr Hawliau Datblygu a Ganiateir a allai, petaent yn cael eu cyflwyno, gael effaith andwyol ar ffigurau ceisiadau cynllunio yn y dyfodol a lefelau incwm.

- Cyfeiriwyd at dudalen 22 yr adroddiad a'r risgiau a nodwyd o golli gweithwyr medrus o fewn y timau mwynau/gwastraff a'r timau rheoli adeiladu. Gofynnwyd am eglurhad a allai hyn effeithio ar ddilyniant y Cynllun Datblygu Lleol (CDLI) diwygiedig.

Cadarnhaodd y Pennaeth Cynllunio fod dilyniant y CDLI diwygiedig yn cymryd blaenoriaeth dros unrhyw waith arall a wneir gan y Tîm Blaengynllunio. Yn y gorffennol roedd y tîm yn gweithio'n agos gyda rhannau eraill yn yr isadran gynllunio, ac adrannau eraill y Cyngor, yn darparu cyngor a chymorth ar bethau megis datblygu briffiau cynllunio, ond oherwydd bod y CDLI yn flaenoriaeth mae hyn yn ei dro yn effeithio ar gwmpas yr isadran i barhau â'r lefel honno o gyfranogiad. O ystyried y flaenoriaeth honno, roedd hi'n edrych ar y posibilrwydd o ddod o hyd i gyllid ychwanegol i barhau i ddarparu cymorth mewnol lle bynnag y bo'n bosibl yn hytrach na phenodi ymgynghorwyr allanol, am gost uwch.

**CYTUNWYD YN UNFRYDOL fod yr adroddiad yn cael ei dderbyn a'i anfon ymlaen i Lywodraeth Cymru erbyn y dyddiad cau sef 31 Hydref.**

## 5. YMWELIADAU GWIRIO CARTREF

Bu'r Pwyllgor yn ystyried adroddiad ar yr Ymweliadau Gwirio Cartref a gynhaliwyd ar stoc tai y Cyngor i sicrhau ei fod yn cynnal y safon a osodwyd o dan y Safon Tai Sir Gaerfyrddin a Mwy sy'n galluogi'r awdurdod i:-

- Nodi unrhyw atgyweiriadau y gellir adennill eu costau yr oedd y tenant yn gyfrifol amdanynt
- Darparu cyngor cynnal a chadw ataliol
- Nodi unrhyw faterion llesiant a chytuno ar y camau nesaf

- Darparu cyngor ar arian os oes angen
- Asesu a oedd y cartrefi yn bodloni anghenion aelwydydd yn y dyfodol
- Adroddiad ar faterion sy'n weddill ac angen eu hatgyweirio
- Nodi unrhyw achosion o dorri tenantiaeth

Nodwyd bod dwy ran i'r broses o ymgymryd â'r ymweliadau Yn gyntaf, mae'n cynnwys archwiliad blynyddol sylfaenol gan swyddogion tai, gweithwyr atgyweirio, arolygwyr technegol neu gcontractwyr gwasanaeth. Yn ail, byddai unrhyw faterion a fyddai'n codi o'r archwiliad sylfaenol o ran y denantiaeth a/neu lesiant yn cael eu hadrodd yn ôl i'r tîm ymgysylltu a fyddai'n cynnal ymweliad mwy manwl â chartref y tenant. Ar gyfer y cyfnod 1 Ionawr i 1 Medi 2018 cyflawnwyd cyfanswm o 7,611 o wiriadau sylfaenol i dai'r Cyngor, o bliith stoc o 9,000, gyda 322 o dai (5%) yn cael eu cyfeirio ar gyfer ymweliad mwy trylwyr gan swyddog tai.

Rhodddwyd sylw i'r cwestiynau/materion canlynol wrth drafod yr adroddiad:-

- Mewn ymateb i gwestiwn am adborth tenantiaid ar ymweliadau mwy trylwyr, roedd y Rheolwr Partneriaeth ac Ymgysylltu wedi atgoffa'r Pwyllgor mai hon oedd blwyddyn gyntaf yr Ymweliadau Gwirio Cartref o weithredu. Y gobaith oedd wrth i amser fynd heibio, y byddai adborth yn y dyfodol yn darparu gwybodaeth werthfawr am farn y tenantiaid am y gwasanaeth tai.

Nodwyd hefyd bod cynigion ar gyfer y dyfodol yn cynnwys yr is-adran yn cynnal 'arolwg seren', yn ogystal â'r adborth am yr ymweliadau gwirio cartref, gan geisio barn yr holl denantiaid am y gwasanaeth a ddarperir ynghyd ag unrhyw feysydd y maent yn teimlo y gellid eu gwella/darparu er mwyn sicrhau gwelliannau parhaus i'r gwasanaeth.

Dywedodd y Pennaeth Dros Dro Cartrefi a Chymunedau Mwy Diogel mai un ffactor pwysig sydd wedi deillio o arolygon o'r fath oedd datblygu rhaglen cynnal a chadw ataliol i sicrhau bod adnoddau priodol yn eu lle i dargedu atgyweiriadau megis nwyddau dŵr glaw i atal problemau rhag codi yn y dyfodol. Yn ogystal, wrth i'r arolygon ddatblygu byddai'r awdurdod yn gallu casglu rhagor o wybodaeth am farn ei denantiaid.

- Cyfeiriwyd at y 7,611 o wiriadau sylfaenol a gyflawnwyd a chafwyd cais i aelodau'r Pwyllgor gael, drwy e-bost, ddadansoddiad o'r rheini fesul ward ac a oedd rhain wedi cael eu cynnal gan y swyddogion tai, contractwyr gwasanaethau yn ystod ymweliadau atgyweirio neu mewn ymateb i alwadau cymorth i denantiaid ac ati.

## **PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn yr adroddiad Ymweliadau Gwirio Cartref**

### **6. ADRODDIAD MONITRO PERFFORMIAD CWARTER 1 - 1AF EBRILL I'R 30AIN O FEHEFIN 2018**

(SYLWER: Datganodd y Cyngorydd J. Gilasbey fuddiant yn ystod yr eitem hon oherwydd ei bod yn Ymddiriedolwr Amgueddfa Ddiwydiannol Cydweli)

Cafodd y Pwyllgor Adroddiad Monitro Perfformiad ar gyfer Chwarter 1 sef rhwng 1 Ebrill a 30 Mehefin 2018 i'w ystyried a oedd yn rhoi manylion y cynnydd a wnaed

yn erbyn y camau gweithredu a'r mesurau yn y Strategaeth Gorfforaethol Newydd 2018/19 o ran cyflawni'r Amcanion Llesiant yn ei gylch gwaith.

Rhodddwyd sylw i'r cwestiynau/materion canlynol wrth drafod yr adroddiad:-

- Mewn ymateb i gwestiwn am y canran o aelwydydd a lwyddwyd i'w hatal rhag dod yn ddigartref (dangosydd PAM/01), dywedodd y Pennaeth Dros Dro Cartrefi a Chymunedau Mwy Diogel mai un o'r rhwystrau mwyaf o ran y dangosydd oedd pobl yn cyflwyno'u hunain yn hwyr i'r adran dai a oedd mewn perygl gwirioneddol o fod yn ddigartref. Pwysleisiodd mor bwysig oedd i bobl oedd ar fin dod yn ddigartref i gysylltu â'r adran pan fo awgrym o hynny er mwyn eu helpu i ddod o hyd i ateb ar gyfer eu hanhawster. Roedd yr adran, mewn partneriaeth â'r sector gwirfoddol a'r trydydd sector, yn ceisio cynyddu ymwybyddiaeth o'r gwasanaeth y mae'n ei ddarparu a hefyd pwysleisio'r angen am ymyrraeth gynnar.
- Gofynnwyd am eglurhad ar gyfer dangosydd PAM/039 a pham yr oedd staff asiantaeth yn cael eu penodi i leihau nifer yr eiddo gwag.

Dywedodd y Pennaeth Dros Dro Cartrefi a Chymunedau Mwy Diogel fod adnoddau wedi cael eu neilltuo i ymgymryd ag atgyweiriadau i eiddo gwag y Cyngor, roedd tua 70 angen gwaith sylweddol. Yr Is-adran Eiddo yn yr Awdurdod oedd yn gyfrifol am ddylunio/amserlennu'r gwaith hwn ac er mwyn eu cwblhau ar y dyddiad cynharaf posibl roedd wedi bod yn angenrheidiol i benodi staff asiantaeth i gynorthwyo gyda'r llwyth gwaith yn y tymor byr. Rhagwelwyd y gellid gwneud cynnydd sylweddol dros y 6-12 mis nesaf i ailgyflwyno'r eiddo hynny i'r stoc tai.

- Nododd y Rheolwr Datblygu Economaidd, mewn ymateb i gwestiwn yn ymwneud â Gweithred 13165 a'r Ddogfen Trawsnewidiadau, eu bod yn ymwneud â Strategaeth Adfywio'r Cyngor ar gyfer y cyfnod 2015-2030 i greu gwaith yn y tair prif ganolfan sef Rhydaman, Caerfyrddin a Llanelli, y llain arfordirol, ardaloedd gwledig a Cross Hands. Dywedodd hefyd fod adolygiad yn cael ei gynnal ar hyn o bryd i 'safleoedd ymgeisio' ar gyfer cyflogaeth i'w cyflwyno i'r adran gynllunio fel rhan o'r adolygiad o Gynllun Datblygu Lleol Sir Gaerfyrddin.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn yr adroddiad.**

## **7. ADRODDIAD MONITRO CYLLIDEB CYFALAF A REFENIW 2018/19**

Bu'r Pwyllgor yn ystyried yr adroddiadau Monitro Cyllideb Refeniw a Chyfalaf ar gyfer Tai, Adfywio, Cynllunio a Gwasanaethau Hamdden ar gyfer y cyfnod hyd at 30 Mehefin, 2018. Nodwyd bod y gyllideb refeniw yn rhagweld gorwariant o £331k, tanwariant o £246k yn y gyllideb gyfalaf, ac roedd y Cyfrif Refeniw Tai yn rhagweld tanwariant o £98k.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL fod yr Adroddiad Monitro Cyllideb Refeniw a Chyfalaf yn cael ei dderbyn.**

## **8. EGLURHAD AM BEIDIO Â CHYFLWYNO ADRODDIAD CRAFFU**

Ystyriodd y Pwyllgor yr eglurhad a roddwyd dros beidio â chyflwyno adroddiad.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn yr adroddiad nad oedd wedi'i gyflwyno.**

## **9. EITEMAU AR GYFER Y DYFODOL**

Cafodd y Pwyllgor restr o'r eitemau a fyddai'n cael eu hystyried yn ei gyfarfod nesaf ar 23 Tachwedd 2018.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn y rhestr o'r eitemau i'w hystyried yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor ar 23 Tachwedd 2018.**

---

**CADEIRYDD**

---

**DYDDIAD**